| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **Y CYNGOR** |
| Dyddiad | 19, Medi, 2013 |
| Pwnc | Ymateb i Ymgynghoriad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| Pwrpas yr Adroddiad | Cyflwyno'r ymateb i sylw'r Cyngor am drafodaeth |
| Awdur | Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor. |

1. Yn gynharach eleni cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ei fod yn sefydlu Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Rhoddwyd briff i'r Comisiwn i edrych yn ofalus, yn onest ac yn wrthrychol ar y modd y mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu yng Nghymru, a sut y gellir gwella ar hyn. Maent yn edrych yn arbennig ar drefniadau llywodraethu y gwasanaethau cyhoeddus, h.y. sut y cant eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad, a sut y gellir eu darparu yn y modd mwyaf effeithiol i'r cyhoedd.

2. Gosodwyd amserlen dyn i'r Comisiwn, gan ofyn iddo adrodd yn ôl erbyn diwedd Rhagfyr eleni.

3. Fel rhan o'i waith mae'r Comisiwn wedi galw am dystiolaeth gan y rhai sydd yn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Gofynnodd i sefydliadau ymateb i'r alwad am dystiolaeth erbyn 31, Awst er mwyn i'r Comisiwn gael cyfle i archwilio'r dystiolaeth a chanolbwyntio ar y prif themâu. Fodd bynnag, dywedodd hefyd os nad oedd yn bosibl ateb erbyn 31, Awst y byddai yn fodlon derbyn tystiolaeth hyd at ddiwedd mis Medi, ond gan nodi y byddai unrhyw ymateb sy'n cyrraedd ar ôl diwedd Awst o bosib yn cael llai o ddylanwad ar waith y Comisiwn.

4. Oherwydd yr amserlen dyn hon, ac er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cael y dylanwad mwyaf ar waith y Comisiwn, deuthum i'r casgliad mai'r peth gorau i wneud oedd llunio ymateb cryno yn seiliedig ar yr egwyddorion y dylai'r Comisiwn eu hystyried wrth ddod i benderfyniad a chyhoeddi yr ymateb hwn ar ffurf Taflen Benderfyniad gan ei gylchredeg i holl aelodau'r Cyngor.

5. Serch hynny, mae dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac yng Ngwynedd yn arbennig, yn fater o bwys mawr i bobl Gwynedd, a chredaf ei fod yn fater sydd yn haeddu sylw gan yr holl aelodau mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn. 'Rwyf felly yn cyflwyno yr ymateb a anfonais i'r Comisiwn i sylw'r Cyngor am drafodaeth (Atodiad 1). Gan fod y Comisiwn wedi nodi y byddent yn fodlon derbyn tystiolaeth hyd at ddiwedd Medi, byddaf mewn sefyllfa i anfon unrhyw sylwadau ychwanegol atynt yn dilyn y drafodaeth yn y Cyngor.

6. Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi holiadur y gellir ei ddefnyddio wrth ymateb i'w galwad am dystiolaeth. Mae hwnnw yn holiadur manwl iawn yn cynnwys nifer o wahanol themâu. Rhag cymylu'r negeseuon, ac wedi trafod gydag aelodau eraill y Cabinet, deuthum i'r farn y byddai'n well cyflwyno tystiolaeth ar sail yr egwyddorion yr wyf yn ei gredu ddylai lywio gwaith y Comisiwn yn hytrach na manylder y ddarpariaeth ar hyn o bryd. Dyna pam mae'r ymateb atodol yn edrych ar y sail dystiolaethol o’r hyn sydd wedi newid ers sefydlu'r trefniadau llywodraethu presennol, yr hyn sydd yn debyg o newid yn y dyfodol, ac yn sgil hynny, beth erbyn heddiw ydi’r nodweddion allweddol fyddai'n caniatáu trefniadau llywodraethu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus fyddai yn arwain at y canlyniad gorau i bobl leol. Yn olaf, mae sylwadau ar y model llywodraethu fyddai'n addas ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus i'r dyfodol.

7. Ddiwedd Awst fe wnaeth y Comisiwn ryddhau adroddiad cynnydd yn egluro beth yw'r prif bwyntiau sydd wedi eu cyflwyno iddo fel tystiolaeth hyd yma. Atodaf yr adroddiad cynnydd fel cyd-destun ar gyfer y drafodaeth yn y Cyngor (Atodiad 2).

8. 'Rwy’n cyflwyno yr ymateb i sylw'r Cyngor llawn er mwyn cael trafodaeth ehangach ar ei gynnwys ac i ganiatáu i mi ddod i gasgliad a oes angen anfon unrhyw dystiolaeth ychwanegol i'r Comisiwn ar ran y Cyngor.